

# Mapio Cymunedol & Archwiliadau Trefi

## Cip cyflym

Bydd y ffordd orau o gynnal mapio cymunedol yn unigryw i'ch ardal chi. Man cychwyn da yw edrych ar beth mae eich cymuned yn ei wybod a'i wneud yn barod; sut mae pobl yn defnyddio gofodau lleol, beth sy'n gweithio'n dda, a lle y ceir heriau. Trwy ddod â gwybodaeth leol a phrofiad bywyd at ei gilydd, gallwch adnabod bylchau, amlygu cryfderau, a dod o hyd i gyfleoedd ymarferol i wneud gwelliannau.

## Adnoddau Defnyddiol

Cymunedau Oed Gyfeillgar: Offeryn Mapio

Sylw i Ragfarn Oed: Yr Amgylchedd Adeiledig

## Beth yw Mapio Cymunedol?

Mae mapio cymunedol yn ffordd syml o ddeall pa mor dda mae eich ardal leol yn gweithio i'r bobl sy'n byw ynddi—yn enwedig felly bobl hŷn—trwy adnabod beth sy'n gweithio, beth sydd ar goll, a beth ellid ei wella.

## Pam Ei Wneud?

- Adnabod rhwystrau i hygyrchedd a chynhwysiant
- Casglu profiadau go iawn gan bobl leol
- Amlygu enillion cyflym a blaenoriaethau mwy hirdymor
- Adeiladu tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am arian a chynllunio penderfyniadau
- Cefnogi cymunedau oed gyfeillgar a chynhwysol

- Seddi – A oes digon ohonynt? A ydynt yn gyfforddus ac yn y lleoedd iawn?
- Palmentydd – A ydynt yn wastad, llydan, ac yn ddi-rwystr?
- Goleuadau – A ydynt yn ddigonol a chyson?
- Croesfannau – A ydynt yn ddiogel ac yn hawdd i'w defnyddio?
- Tai bach – A ydynt ar gael ac yn hygyrch?
- Arwyddion – A ydynt yn glir, darllenadwy, a dwyieithog (Cymraeg/Saesneg)?
- Lleoedd cyhoeddus – A ydynt yn groesawgar ac yn hawdd i'w defnyddio?

### Cynlluniwch

- Dewiswch ardal benodol (e.e. stryd fawr, parc, llwybr cerdded allweddol)
- Penderfynwch ar eich ffocws (e.e. hygyrchedd, diogelwch, oed gyfeillgarwch)
- Gosodwch ddyddiad a phenderfynwch pwy fyddwch yn eu cynnwys

### Ymgysylltwch

- Gwahoddwch gymysgedd o bobl leol, a phobl hŷn yn enwedig
- Cynhwyswch grwpiau lleol, busnesau, a chynghorwyr
- Cadwch ef yn syml a chroesawgar—nid oes angen unrhyw wybodaeth dechnegol

### Mapiwch & Archwiliwch

- Cerddwch yr ardal gyda'ch gilydd ac arsylwch
- Tynnwch luniau
- Gwnewch nodiadau ar fap print neu ddigidol
- Anogwch drafodaeth agored

### Adolygwch & Gweithredwch

- Casglwch y canfyddiadau at ei gilydd
- Dewch o hyd i enillion cyflym
- Amlygwch flaenoriaethau mwy hirdymor
- Rhannwch y canlyniadau gyda phartneriaid a'r gymuned
- Defnyddiwch y canfyddiadau i gefnogi ceisiadau am arian neu gynlluniau lleol

**Awgrym Arbennig: Peidiwch anelu at berffeithrwydd—mae newidiadau bach yn gwneud gwahaniaeth mawr. Cymerwch gam cyntaf nerthol tuag at greu lleoedd mwy diogel, mwy cynhwysol, a mwy croesawgar i bawb.**

**Eisiau Gwybod Mwy?**
**Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK

Un Llais Cymru